



## ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

20 Chwefror 2019

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Calendr Cyfarfodydd

---

### 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar raglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

### 2.0 Cefndir

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1, cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu.

### 3.0 Ystyriaethau

3.1 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn.

### 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1.1 Gymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

---

## **5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## **6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## **7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## **8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

## **9.0 Atodiadau**

Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig Cyd-bwyllgor GwE 2019/20.

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd Cydbwyllgor GwE, fel y'u cynigir yma, yn addas i bwrpas. Yn benodol, bydd 8 Gorffennaf 2019 yn amserol ar gyfer derbyn cyfrifon cyn-archwiliad 2018/19, tra bydd 11 Medi 2019 yn amserol ar gyfer derbyn a chymeradwyo adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfrifon 2018/19, sy'n ofyniad statudol orfodol cyn 15 Medi.

**Atodiad 1:**

**Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2019-2020**

<b>CYFARFOD</b>	<b>DYDDIAD</b>	<b>AMSER</b>	<b>LLEOLIAD</b>
Cyd-Bwyllgor GwE	08/07/2019	10.30 y.b	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	11/09/2019	2.00 y.p	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	27/11/2019	10.30 y.b	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	26/02/2020	10.30 y.b	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn
Cyd-Bwyllgor GwE	20/05/2020	10.30 y.b	Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn